Gaeaf 2018/19

# VAWDASV Cylchlythyr Gwent

## Llwyddiant taith gerdded y Rhuban Gwyn yng Nghasnewydd






**Ddydd Sul 25 Tachwedd, daeth pobl ledled Gwent i ymuno â ni i nodi Diwrnod Rhyngwladol Diddymu Trais yn erbyn Menywod y Cenhedloedd Unedig.**

Dechreuodd y daith gerdded yn Swyddfeydd Llamau yn Stow Hill gydag anerchiad gan John Griffiths a Jayne Bryant, Aelodau Cynulliad Casnewydd. Yna cerddodd y rhai oedd yn bresennol filltir i Theatr Glan-yr-afon, lle cafwyd cyflwyniadau gan y Ditectif Arolygydd Chris Haire o Heddlu Gwent ac aelodau The Brothers, grŵp partneriaeth rhwng Charter Housing a Bron Afon. Diolch o galon i bawb oedd yn bresennol gan wneud y digwyddiad hwn mor arbennig. Diolch yn arbennig i Michele Parker o Llamau am ei sgiliau trefnu, Theatr Glan-yr-afon am gynnal y digwyddiad a gwneud i ni deimlo mor gartrefol, ac i Lubas Medical am eu gwasanaeth cymorth cyntaf ar y diwrnod. Yn ffodus iawn, doedd dim angen i neb ddefnyddio eu gwasanaethau. Diolch yn arbennig i fyfyrwyr Cwrs Sylfaen Academi'r Celfyddydau yng Nghaerdydd hefyd am wneud y goeden ardderchog hon yr oedd modd i bobl hongian eu haddewidion oddi arni. Rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw syniadau am ddigwyddiad blwyddyn nesaf.

## Ffocws ar drais ar sail 'anrhydedd'

**Gellir gwahaniaethu rhwng trais ar sail anrhydedd a ffurfiau eraill ar drais gan ei fod yn aml yn cael ei gynnal gyda rhyw elfen o gymeradwyaeth a/neu gydgynllwynio gan aelodau'r teulu a/neu'r gymuned.**

Cyn cael cymorth, roedd dioddefwyr mewn perygl o drais ar sail anrhydedd yn cael eu cam-drin am ddwy flynedd yn hirach (pum mlynedd o gymharu â thair blynedd) na'r rhai nad oedd wedi'u nodi mewn perygl o drais ar sail anrhydedd. Nid oedd bron chwarter (23%) o ddioddefwyr mewn perygl o drais ar sail anrhydedd yn gymwys am y mwyafrif o fudd-daliadau, credydau treth neu gymorth tai.

Gyda'i gilydd, roedd 68% o ddioddefwyr mewn perygl o drais ar sail anrhydedd mewn perygl o drosedd ddifrifol neu ddynladdiad, o gymharu â 55% o'r rhai heb eu nodi mewn perygl o drais ar sail anrhydedd. Roedd dioddefwyr mewn perygl o drais ar sail anrhydedd dros saith gwaith yn fwy tebygol o ddioddef camdriniaeth gan sawl person (54% yn erbyn 7%) o gymharu â'r rhai nad ydynt yn cael eu nodi mewn perygl o drais ar sail anrhydedd.

# Digwyddiadau diogelu



**Roedd y tîm wrth ei fodd o fod yn rhan o Ddigwyddiadau Ymarferwyr Diogelu Lleol ar hyd a lled Gwent ym mis Tachwedd 2018.**

Roedd digwyddiadau mis Tachwedd yn seiliedig ar thema'r Wythnos Diogelu Cenedlaethol, sef 'cam-fanteisio' ac roedd yn cynnwys cyflwyniadau ar Gaethwasiaeth Fodern, Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, Llinellau Cyffuriau ac effaith cam-fanteisio ar wasanaethau rheng flaen.

Cynhaliwyd digwyddiadau yng Nghasnewydd, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy a Chaerffili ac roedd llu o bobl yn bresennol. Roedd hi'n wych gweld cymaint o bobl yn rhoi o'u hamser dros y pythefnos.

Diolch enfawr i Alex (nid ei henw iawn) am ganiatáu i ni rannu ei stori ar ffurf astudiaeth achos. Rhoddodd hyn y cyfle i weithwyr proffesiynol ledled Gwent i feddwl am eu dull o ran y bobl roeddynt yn gweithio gyda nhw a dangosodd fod gan bob un ohonom y gallu i wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl.

## Hyfforddiant Blwyddyn Newydd

**A yw 'Blwyddyn Newydd, Person Newydd' yn golygu dysgu mwy?**

Ewch i wefan diogelu plant i gymryd golwg ar yr hyfforddiant sydd ar gynnig.

Mae'n cynnwys Gofyn a Gweithredu'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, a hyfforddiant arbenigol.

Ewch i training.sewsc.org.uk

## Ysbrydoli am Newid

**Cynhaliwyd ein cynhadledd trais rhywiol ddechrau mis Chwefror ac roedd yn llwyddiant mawr.**

Cafwyd siaradwyr gwadd ysbrydoledig a gweithdai gwych ar y diwrnod, a gafodd ei gynnal yn Theatr Glan-yr-afon yng Nghasnewydd.

Diolch yn fawr i bawb a gymerodd ran.

## Deiseb Dewis Choice

**Mae deiseb 'Trawsnewid ymateb i bobl hŷn sy'n dioddef o gam-drin domestig – galw am weithredu' Project Dewis Choice bellach yn fyw ar wefan y Senedd.**

Mae Dewis Choice yn broject sy'n cael ei ariannu gan Loteri Fawr y DU a'i arwain gan y gymuned, gyda swyddfa yng Nghanolfan Oedran, Rhywedd a Chyfiawnder Cymdeithasol ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Byddwn i'n ddiolchgar iawn pe bai modd i chi lofnodi'r ddeiseb fel y gall Pwyllgor Deisebau'r Senedd ystyried y ddeiseb a gofyn am ymateb gan y gweinidog perthnasol.

## Dangosyddion Cenedlaethol Drafft

**Lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad i Ddangosyddion Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cenedlaethol Drafft ac mae'n ceisio sylwadau gan bobl ledled Cymru.**

Gellir darllen copi o'r ddogfen ymgynghori ar ei gwefan. Mae'r ddogfen yn rhoi manylion ar y cynigion drafft ar gyfer rhestr o ddangosyddion Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a gwybodaeth am sut i ddweud eich dweud. Dyma'r cam cyntaf y nodi set lawn, gynhwysol a chadarn o Ddangosyddion Cenedlaethol.